# Edexcel TAG

## Edexcel TAG Uwch Gyfrannol
## yn y Cyfryngau: Cyfathrebu a Chynhyrchu
## (8771)

Uned 3: Sgiliau ac Gyfer Cynnyrch y Cyfryngau

Mehefin 2005

dysgu uwch, newid bywyd

**Deunydd asesu allanol enghreifftiol**

**Edexcel TAG yn**
y Cyfryngau: Cyfathrebu a Cynhyrchu (8771)

Rewarding Learning

Mae Edexcel Cyfyngedig yn un o'r prif gyrff arholi a dyfarnu yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd. Mae'n ymgorffori'r holl gymwysterau a ddyfarnwyd cyn hyn o dan frand Edexcel a BTEC. Rydym yn cynnig amrediad eang o gymwysterau gan gynnwys rhai cyffredinol (academaidd) a galwedigaethol a rhaglenni penodol i gyflogwyr.

Trwy rwydwaith o swyddfeydd yn y DU a gwledydd tramor, mae ein canolfannau'n derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i'w helpu i gyflwyno eu rhaglenni addysg a hyfforddiant i ddysgwyr.

Am wybodaeth bellach ffoniwch ein Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar 0870 240 9800, neu ewch i'n gwefan yn www.edexcel.org.uk

*Gwneir cyfeiriadau at ddeunyddiau trydydd parti yn y fanyleb hon yn ddidwyll. Nid yw Cymwysterau Llundain yn cefnogi, yn cymeradwyo nac yn derbyn cyfrifoldeb am gynnwys y deunyddiau, a all fod yn agored i'w newid, nac unrhyw farn a fynegir ynddynt. (Gall y deunydd gynnwys gwerslyfrau, cylchgronau a chyhoeddiadau eraill a gwefannau.)*

Awdurdodwyd gan Jim Dobson
Paratowyd gan Duncan Fraser

Mae'r holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn hawlfraint
© Edexcel Cyfyngedig 2005

# Cynnwys


**Nodyn i athrawon** 1

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr** 3

Rhan A 3

Diffiniadau 3

Rhan B 3

**Comisiwn 1: Fideo** 4

**Comisiwn 2: Sain** 5

**Comisiwn 3: Aml-gyfrwng** 6

**Comisiwn 4: Argraffu** 7

# Nodyn i athrawon

Caiff y deunydd blaengyhoeddi ar gyfer asesiad allanol ei roi ar wefan Edexcel yn ystod mis Medi pob blwyddyn. Bydd hyn yn galluogi canolfannau i gynllunio dysgu'r Uned a gaiff ei hasesu'n allanol, a chaniatáu am ddatblygu sgiliau priodol yn Uned 2. Bydd y deunydd blaengyhoeddi ar ffurf comisiwn oddi wrth gleient. Bydd rhaid i ymgeiswyr baratoi cynnig ac ymdriniaeth a roddir i'r athro ac yna bydd yr athro'n penderfynu a yw'n addas. Ni ellir gwneud y camau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu tan i'r athro gytuno bod y cynnig a'r ymdriniaeth yn briodol.

Caiff y senarios a osodir fel arfer eu seilio ar feysydd diddordeb ymgeiswyr fel:

- llygredd amgylcheddol
- arferion siopa
- yfed o dan oedran
- cyffuriau (gan gynnwys smygu).

Dylid darllen y deunydd enghreifftiol hyn mewn cysylltiad ag Uned 3, yn enwedig yr adrannau â'r pennawd *Beth sydd angen i chi ei ddysgu* a *Cyflwyno'r Uned hon*.

Dylid nodi bod angen i ymgeiswyr gynhyrchu, ar gyfer asesiad Uned 3:

- Gwaith papur blaengynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu fel tystiolaeth ar gyfer maen prawf a).
- Y cynnyrch a waned mewn ymateb i'r briff a ddarparwyd fel tystiolaeth ar gyfer maen prawf b) ac c).
- Gwerthusiad o'r gwaith fel tystiolaeth ar gyfer maen prawf d).

Rhaid i waith yr ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o:

a dealltwriaeth o'r prosesu cynhyrchu

b cymhwysiad o dechnegau a sgiliau cynhyrchu tuag at greu cynnyrch cyfryngol

c gallu i weithio'n greadigol i friff

ch gwerthusiad o'r cynnyrch cyfryngol.

Rhoddir y meini prawf asesu am Uned 3 ar y dudalen ddilynol.

Nid oes cyfyngiadau amser penodol ar gyfer y cynnyrch ac eithrio'r hyn a osodir gan yr angen i'r gwaith fod yn barod ar gyfer ymweliad y safonwr. Rhaid i'r holl waith a gyflwynir ar gyfer asesiad fod wedi cael ei farcio a'i safoni'n fewnol cyn yr ymweliad hwnnw. Bydd Edexcel yn rhoi gwybod i ganolfannau am ddyddiad eu hymweliad safoni.

**DS**: Bydd Asesiad Uned 3 ar gael ym mis Mehefin yn unig.

## Meini prawf asesu

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **(a)** **AA2** | Mae'n dangos dealltwriaeth gyfyngedig o dechnegau cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu drwy ddogfennaeth sy'n ddiffygiol o ran ei manylder. **(0-8)** | Mae'n dangos dealltwriaeth eglur o dechnegau cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu drwy ddogfennaeth sydd wedi'i chynhyrchu'n ofalus ac sy'n cwmpasu'r categorïau angenrheidiol. **(9-12)** | Mae'n dangos dealltwriaeth ardderchog o dechnegau cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu drwy ddogfennaeth sy'n drefnus iawn ac sy'n cwmpasu pob agwedd ar y broses yn llawn. **(13-16)** | **16** |
| **(b)** **AA3** | Mae'n dangos amrediad cyfyngedig o sgiliau cynhyrchu a thechnegol a ddefnyddir i greu cynnyrch cyfryngol sy'n cyrraedd ei amcanion yn rhannol. **(0-10)** | Mae'n dangos amrediad da o sgiliau cynhyrchu a thechnegol a ddefnyddir i greu cynnyrch cyfryngol sy'n cyrraedd ei amcanion ar y cyfan. **(11-15)** | Mae'n dangos amrediad eang o sgiliau cynhyrchu a thechnegol a ddefnyddir i greu cynnyrch cyfryngol sy'n cyrraedd ei amcanion yn llwyddiannus. **(16-20)** | **20** |
| **(c)** **AA3** | Mae'n cynhyrchu cynnyrch cyfryngol sy'n rhannol yn ateb y briff ac yn ymwneud â'r gynulleidfa a fwriedir. **(0-8)** | Mae'n cynhyrchu cynnyrch cyfryngol sy'n dangos peth dychymyg, yn ateb y briff yn y rhan fwyaf o agweddau ac yn ymwneud â'r gynulleidfa a fwriedir yn briodol. **(9-12)** | Mae'n cynhyrchu cynnyrch cyfryngol sy'n dangos creadigrwydd, yn ateb y briff yn llawn ac yn ymwneud â'r gynulleidfa a fwriedir yn llwyddiannus. **(13-16)** | **16** |
| **(d)** **AA4** | Mae'n rhoi gwerthusiad sylfaenol o'i (g)waith ei hun ac addasrwydd y cynnyrch i'r diben. **(0-4)** | Mae'n rhoi, gydag enghreifftiau priodol, werthusiad eglur o'i (g)waith ei hun ac addasrwydd y cynnyrch i'r diben. **(5-6)** | Mae'n rhoi, gyda dadansoddiad o enghreifftiau a ddewiswyd yn dda, werthusiad beirniadol o'i (g)waith ei hun ac addasrwydd y cynnyrch i'r diben. **(7-8)** | **8** |
| | . | | **Cyfanswm marciau** | **60** |

# Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Rhennir y gwaith ar gyfer yr asesiad allanol hwn yn ddwy ran: Rhan A a Rhan B.

Rhaid i ymgeiswyr ddewis un o'r pedwar Comisiwn sy'n dilyn y cyfarwyddiadau a roddir yn Rhan A a Rhan B.

Bydd eich athro'n dweud wrthych chi pryd mae rhaid i chi gyflwyno eich gwaith.

## Rhan A

Gan weithio'n unigol mae rhaid i chi ddatblygu cynnig ac ymdriniaeth ar gyfer cynnyrch cyfryngol sy'n cyflawni un o'r pedwar comisiwn a roddwyd. Gallwch ysgrifennu eich cynnig a'ch ymdriniaeth â llaw ond byddai'n fwy proffesiynol eu cynhyrchu nhw ar brosesydd geiriau. Rhaid i chi gyflwyno eich cynnig a'ch ymdriniaeth i'ch athro cyn y gallwch symud ymlaen i Ran B.

Mae angen i chi:

- gwneud ymchwil i elfennau gofynnol y cynnig a'r ymdriniaeth gan gynnwys unrhyw ofynion sydd gan y cyrff rheoli o ran nawdd
- ystyried cynlluniau argyfwng ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a newidiadau posibl yng ngoleuni adborth y cleient
- defnyddio iaith gyfryngol briodol wrth ysgrifennu eich cynnig ac ymdriniaeth
- defnyddio confensiynau a fformatau priodol i'r diwydiant wrth ysgrifennu eich cynnig ac ymdriniaeth.

## Diffiniadau

**Cynnig:** dogfen a ddefnyddir i werthu syniad i gleient. Dylai cynnig fod yn fyr ac yn gryno a dylai annog cleient i gofyn am ddatblygiad manwl pellach.

**Ymdriniaeth:** datblygiad manwl pellach o'r cynnig. Dylai'r ymdriniaeth gynnwys elfennau llinell stori, lleoliadau/defnydd stiwdio, adnoddau a chyllideb. Dylai hefyd gynnwys, lle y bo'n briodol, elfennau o amlinell o sgript neu senario, bwrdd stori syml i gynorthwyo dealltwriaeth y cleient a manylion y personél allweddol sy'n gweithio ar y prosiect.

## Rhan B

Rhaid i chi ddatblygu cynnyrch cyfryngol mewn ymateb i un o'r pedwar comisiwn a roddwyd yn dilyn datblygu'ch syniadau yn Rhan A. Dylech chi ddefnyddio technoleg a thechnegau priodol i greu eich cynnyrch.

Bydd angen i chi:

- ddangos eich dealltwriaeth a'ch defnydd o dechnoleg a thechnegau cynhyrchiad cyfryngol
- cynhyrchu'r gwaith papur priodol i gefnogi cynhyrchu eich cynnyrch
- defnyddio eich sgiliau i gynhyrchu cynnyrch cyfyngol ar fformat priodol
- gwerthuso eich gwaith eich hun, ac os ydych chi wedi defnyddio pobl eraill i'ch helpu chi gyda'ch cynhyrchiad, waith eich tîm
- gwerthuso eich cynnyrch gorffenedig.

# Comisiwn 1: Fideo

Mae corff cenedlaethol sy'n hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon wedi cysylltu â chi i ofyn am gynigion ac ymdriniaeth am hysbyseb i'w dangos ar deledu masnachol lleol. Bydd yr hysbyseb yn anelu at blant o oed ysgol gynradd. Rhaid i'r hysbyseb geisio gwneud gweithgaredd chwaraeon yn hwyl. Mae'r corff wedi gofyn i chi am eich syniadau am arddull, cynnwys a hyd yr hysbyseb a gynigir.

Bywllon.com

Dyddiad fel y marc post

Annwyl Syr/Fadam,

Fel rhan annatod o'n hymgyrch i hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon ymysg pobl ifanc rydyn ni'n gobeithio comisiynu hysbyseb deledu i'w dangos ar deledu cenedlaethol. Dylai'r hysbyseb roi gwybodaeth a bod yn ddifyr er mwyn dal sylw ein cynulleidfa darged o blant 6–10 oed. Rhaid i'r hysbyseb hefyd geisio gwneud gweithgareddau chwaraeon yn hwyl.

Mae gennym gyllideb sylweddol a byddwn am ystyried amrywiaeth o ddewisiadau o ran arddull, cynnwys a ffurf yr hysbyseb. Rydym hefyd yn credu y dylid ceisio cyflwynydd priodol a fyddai'n apelio i'w gynulleidfa i gyflwyno'r rhaglen.

Hoffem gael yr hysbyseb ar gael i'w darlledu ar gychwyn gwyliau haf yr ysgolion a hoffem gael eich sicrwydd fod hyn yn bosibl. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ataf eich syniadau am yr hysbyseb ac ymdriniaeth fanwl o un o'ch syniadau. Yna gallaf drafod y rhain gyda'm cydweithwyr a threfnu cyfarfod gyda chi a gweddill tîm Bywllon.com.

Yn gywir,

Jane Dewsbury<br>
BywLlon.com<br>
jane@BywLlon.com

# Comisiwn 2: Sain

Mae corff cenedlaethol sy'n hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon wedi cysylltu â chi i ofyn am gynigion ac ymdriniaeth am hysbyseb radio i'w dangos ar orsaf radio fasnachol leol. Bydd yr hysbyseb yn anelu at blant o oed ysgol gynradd. Rhaid i'r hysbyseb geisio gwneud gweithgaredd chwaraeon yn hwyl. Mae'r corff wedi gofyn i chi am eich syniadau am arddull, cynnwys a hyd yr hysbyseb a gynigir.

Bywllon.com

Dyddiad fel y marc post

Annwyl Syr/Fadam,

Fel rhan annatod o'n hymgyrch i hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon ymysg pobl ifanc rydyn ni'n gobeithio comisiynu hysbyseb radio i'w darlledu ar orsaf radio genedlaethol. Dylai'r hysbyseb roi gwybodaeth a bod yn ddifyr er mwyn dal sylw ein cynulleidfa darged o blant 6–10 oed. Rhaid i'r hysbyseb hefyd geisio gwneud gweithgareddau chwaraeon yn hwyl.

Mae gennym gyllideb sylweddol a byddwn am ystyried amrywiaeth o ddewisiadau o ran arddull, cynnwys a ffurf yr hysbyseb. Rydym hefyd yn credu y dylid ceisio cyflwynydd priodol a fyddai'n apelio i'w gynulleidfa i drosleisio'r hysbyseb.

Hoffem gael yr hysbyseb ar gael i'w darlledu ar gychwyn gwyliau haf yr ysgolion a hoffem gael eich sicrwydd fod hyn yn bosibl. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ataf eich syniadau am yr hysbyseb radio ac ymdriniaeth fanwl o un o'ch syniadau. Yna gallaf drafod y rhain gyda'm cydweithwyr a threfnu cyfarfod gyda chi a gweddill tîm Bywllon.com.

Yn gywir,

Jane Dewsbury
BywLlon.com
Jane@BywLlon.com

# Comisiwn 3: Aml-gyfrwng

Mae corff cenedlaethol sy'n hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon wedi cysylltu â chi i ofyn am gynigion ac ymdriniaeth am CD-Rom amlgyfrwng i'w ddosbarthu'n eang. Bydd y CD yn anelu at blant o oed ysgol gynradd. Rhaid i'r hysbyseb geisio gwneud gweithgaredd chwaraeon yn hwyl. Mae'r corff wedi gofyn i chi am eich syniadau am arddull, cynnwys a hyd yr hysbyseb a gynigir.

Bywllon.com

Dyddiad fel y marc post

Annwyl Syr/Fadam,

Fel rhan annatod o'n hymgyrch i hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon ymysg pobl ifanc rydyn ni'n gobeithio comisiynu CD-Rom a fydd ar gael yn eang. Dylai'r CD roi gwybodaeth a bod yn ddifyr er mwyn dal sylw ein cynulleidfa darged o blant 6–10 oed. Rhaid i'r CD-Rom geisio gwneud gweithgareddau chwaraeon yn hwyl.

Mae gennym gyllideb sylweddol a byddwn am ystyried amrywiaeth o ddewisiadau o ran arddull, cynnwys a ffurf y CD-Rom. Rydym hefyd yn credu y dylid ceisio cyflwynydd priodol a fyddai'n apelio i'w gynulleidfa i gyflwyno'r CD-Rom.

Hoffem gael hwn yn barod i'w ddanfon ar ddechrau gwyliau haf yr ysgolion a hoffem gael eich sicrwydd fod hyn yn bosibl. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ataf eich syniadau am y CD-Rom ac ymdriniaeth fanwl o un o'ch syniadau. Yna gallaf drafod y rhain gyda'm cydweithwyr a threfnu cyfarfod gyda chi a gweddill tîm Bywllon.com.

Yn gywir,

Jane Dewsbury
BywLlon.com
jane@BywLlon.com

# Comisiwn 4: Argraffu

Mae corff cenedlaethol sy'n hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon wedi cysylltu â chi i ofyn am gynigion ac ymdriniaeth am gyfres o ddeunydd cyhoeddusrwydd argraffedig i'w rhoi i bobl ifanc. Bydd y deunydd cyhoeddusrwydd yn anelu at blant o oed ysgol gynradd. Rhaid i'r deunydd geisio gwneud gweithgaredd chwaraeon yn hwyl. Mae'r corff wedi gofyn i chi am eich syniadau am arddull, cynnwys a hyd y deunydd argraffedig a gynigir.

BywLlon.com

Bywllon.com

Dyddiad fel y marc post

Annwyl Syr/Fadam,

Fel rhan annatod o'n hymgyrch i hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon ymysg pobl ifanc rydyn ni'n gobeithio comisiynu cyfres o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd wedi'u hargraffu a fydd yn annog eich cynulleidfa darged i feddwl am weithgareddau chwaraeon. Dylai'r deunydd roi gwybodaeth a bod yn ddifyr er mwyn dal sylw ein cynulleidfa darged o blant 6 - 10 oed.

Mae gennym gyllideb sylweddol a byddwn am ystyried amrywiaeth o ddewisiadau o ran arddull, cynnwys a ffurf y deunyddiau cyhoeddusrwydd. Rydym hefyd yn credu y dylid ceisio personoliaeth briodol a fyddai'n apelio i'w gynulleidfa i ymddangos yn y deunydd argraffedig.

Hoffem i'r deunydd fod ar gael i'w ddosbarthu ar gychwyn gwyliau haf yr ysgolion a hoffem gael eich sicrwydd fod hyn yn bosibl. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ataf eich syniadau am y deunydd cyhoeddusrwydd argraffedig ac ymdriniaeth fanwl o un o'ch syniadau. Yna gallaf drafod y rhain gyda'm cydweithwyr a threfnu cyfarfod gyda chi a gweddill tîm Bywllon.com.

Yn gywir,

Jane Dewsbury
BywLlon.com
Jane@BywLlon.com

909rl020605S:LT\PD\APPLIED GCE\WELSH APP GCE SAMS\UA015764 cymraeg Adv. Sub. GCE in MediaCommunication&Production(8771).doc.1-12/0

Mehefin 2005

Am ragor o wybodaeth am gymwysterau Edexcel a BTEC cysylltwch â
Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0870 240 9800
neu http://enquiries.edexcel.org.uk
neu ymwelwch â'n gwefan: www.edexcel.org.uk

Edexcel Cyfyngedig. Yn gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 4496750
Swyddfa Gofrestredig: One90 High Holborn, Llundain WC1V 7BH